10 Ebrill 2021

Annwyl Riant / Ofalwr

Diolch

Cawsom y fraint o groesawu Blynyddoedd 7 i 13 nol i safle'r Ysgol yn ystod y pythefnos olaf cyn y Pasg - diolch i chi fel rhieni a gofalwyr am sicrhau bod lefelau presenoldeb yr Ysgol wedi taro lefelau uchel o'r diwrnod cyntaf. Edrychwn ymlaen yn awr i weld holl ddisgyblion yr Ysgol nol gyda'i gilydd. Ni fydd ysgol i blant ar **Ddydd Llun 12 Ebrill** - hwn yn ddiwrnod paratoi i athrawon. Ar **Ddydd Mawrth 13 Ebrill**, bydd gwersi ar y safle yn ail-ddechrau i bob disgybl o Flwyddyn 7 – Blwyddyn 13, a bydd disgwyl i bawb ddod i'r Ysgol o'r diwrnod hwnnw ymlaen. Bydd pob gwers yn cael eu dysgu ar y safle (ac eithrio gwersi Partneriaeth y Chweched) ac **ni fydd ffrydio byw yn weithredol.**

Gwisg Ysgol

O Ddydd Mawrth 13 Ebrill, bydd angen i bob disgybl Blwyddyn 7 i 11 wisgo'r wisg Ysgol

- Crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol.
- Trowsus neu sgert ddu blaen (nid jeans, leggings)
- Esgidiau du (heb unrhyw liw arall), dim 'trainers'
- Siwmper ddu gyda bathodyn yr ysgol (nid 'hoody'),

a'r Chweched i wisgo'r wisg swyddogol ar eu cyfer nhw.

Rhaid i ddisgyblion ddod a sgidiau addas **yn eu bagiau** os am ddefnyddio'r MUGA neu'r 2G amser cinio.

A fyddech mor garedig â gosod enwau ar eiddo fel ein bod yn medru dychwelyd eiddo coll yn syth i'r perchennog.

Gwersi Ymarfer Corff

Bydd yr Ysgol yn parhau i ddarparu gwersi Ymarfer Corff, a disgwylir i ddisgyblion wisgo **gwisg ymarfer corff yr ysgol** a thracwisg a 'trainers' priodol ar ddiwrnodau pan fydd ganddynt wersi Ymarfer Corff. Ni fydd cyfleusterau newid ar gael ar y safle am gyfnod eto.

Gydag agoriad y MUGA, 2G a'r 3G newydd, bwriedir cynnal rhai o'r gwersi Ymarfer Corff ar y 'caeau' newydd hyn. Mae gofynion penodol ar gyfer esgidiau i'w gwisgo ar y cae 3G, ond **FEL RHIENI A GOFALWYR, PEIDIWCH Â PHRYNU UNRHYW ESGIDIAU NEWYDD I'CH PLANT OS NAD OES RHAID - BYDD CYFLENWAD O RAI MATHAU O ESGIDIAU AR GYFER Y 3G AR GAEL YN YR YSGOL.**

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Cinio
O **Ddydd Mawrth 13 Ebrill**, bydd amser cinio Blwyddyn 7, 8 a 9 o **1:30pm hyd at 2:20pm**, gyda disgyblion hŷn yr Ysgol yn glynu at **12:40pm hyd at 1:30pm**.
Bydd angen i bob plentyn ac eithrio'r sawl sy'n derbyn Cinio Ysgol Am Ddim ddod â phecyn bwyd i'r Ysgol yn feunyddiol am yr wythnosau nesaf. Gobeithir treialu'r Ap archebu bwyd dros y cyfnod nesaf hwn, cyn caniatáu i bob plentyn ei ddefnyddio ym mis Mai.
Darperir pecyn bwyd beunyddiol i bob plentyn sy'n derbyn Cinio Am Ddim, yn unol â'r drefn cyn Nadolig.

Amserau diwedd dydd
Byddwn yn glynu at yr un amserau ar gyfer gadael yr Ysgol ddiwedd dydd:

2:50pm - Blwyddyn 7
2:55pm - Blwyddyn 8
3:00pm - Blwyddyn 9
3:05pm - Blwyddyn 10
3:10pm - Blwyddyn 11-13

Lleoliadau Gwersi
Bydd pob blwyddyn yn aros mewn swigod gydol y dydd, gyda lleoliad gwersi disgyblion iau yr Ysgol yn parhau yn yr un ardaloedd o'r Ysgol ag o'r blaen.

Profion Unffurf Llinol (LFT) i Ddisgyblion
Mae nifer gynyddol ohonoch chi wedi rhoi caniatâd i'ch plant ym Mlynyddoedd 10 - 13 i dderbyn pecynnau o brofion LFT. Os ydych chi mofyn i'ch plant gymryd y profion hyn (i'w defnyddio ddwywaith yr wythnos adref), mae'n rhaid i chi ymateb i'r llythyr a anfonwyd allan yn gynt ym mis Mawrth – https://bit.ly/2Q9AEU4

Arholiadau Allanol Haf 2021
Canslwyd arholiadau ffurfiol TGAU, Lefel A ac UG at gyfer Haf 2021 i blant Cymru, ond mae'n ofynnol i'r Ysgol gasglu tystiolaeth o gyrhaeddiad pob plentyn ym mhob pwnc, a bydd y dystiolaeth honno yn cyfrannu at y radd y bydd yr Ysgol yn pennu ar gyfer eich plentyn. Bydd athrawon eich plant yn eu hysbysu o'r camau sydd i'w cymryd i ychwanegu at y dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli mewn nifer o bynciau, ac mae'r gwaith hwn wedi mynd yn ei flaen ers i'r plant hyn ddychwelyd i'r

Ysgol ym mis Mawrth. Does dim bwriad gan yr Ysgol i gynhyrchu na gweithredu amserlen arholiadau ganolog, a bydd unrhyw asesiadau angenrheidiol yn digwydd o fewn gwersi.

Dyma sut mae Ysgol Gyfun Gwyr yn eu gweld hi o ran y dyddiadau pwysig i Flwyddyn 11, 12 a 13 dros y tri mis nesaf:
11/6/2021 Blwyddyn 11/13 yn cwpla gwersi yn yr Ysgol
18/6/2021 Yr Ysgol yn cyflwyno graddau i ddisgyblion Bl.11/12/13
18-25/6/2021 Ffenest apelio graddau TGAU/UG/Lefel A

Dyma 'Ffeithiau Allweddol' am Haf 2021 a gyhoeddwyd gan Gymwysterau Cymru echdoe:



Pwrpas y prosesau casglu tystiolaeth hyn yw sicrhau fod pob plentyn yn derbyn y radd haeddiannol sy'n adlewyrchu ei gynnydd a'i gyrhaeddiad ym mhob un pwnc.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Bydd y graddau a bennir gan yr Ysgol yn cael eu safoni gan CBAC ac yna bydd y graddau terfynol yn cael eu dyfarnu i'r disgyblion. Bydd diwrnod canlyniadau Lefel A / UG ar Ddydd Mawrth 10 Awst, a dydd canlyniadau TGAU ar Ddydd Iau 12 Awst.

Munud o Ddistawrwydd

Mae'n fwriad cynnal Munud o Ddistawrwydd ar safle'r Ysgol am 9:30am ar Ddydd Mawrth 13 Ebrill i goffau'r sawl a bu farw o ganlyniad i Covid-19. Gohiriwyd hyn ers 23 Mawrth tan fod holl boblogaeth yr Ysgol nol ar y safle.

Diolch i chi am eich cydweithrediad parod.

Yn gywir

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

10 April 2021

Dear Parent / Carer

Thank you

We had the privilege of welcoming Years 7 to 13 back to the School site during the last two weeks before Easter - thanks to you as parents and carers for ensuring that the School's attendance levels have hit high levels from the outset. We now look forward to seeing all the pupils at the School back together. There will be no school for children on Monday 12 April - this is a preparation day for teachers.

On Tuesday 13 April, on-site lessons will resume for all pupils from Year 7 - Year 13, and everyone will be expected to come to School from that day onwards. All lessons will be taught on site (except Sixth Form Partnership lessons) and live streaming of lessons will end.

School uniform

From Tuesday 13 April, all Year 7 to 11 pupils will be required to wear the School uniform

- Blue polo shirt with school badge.
- Plain black trousers or skirt (no jeans, leggings)
- Black shoes (no other colour), no trainers
- Black jumper with school badge (no 'hoody'),

and the Sixth Form to wear their usual attire.

Pupils must bring suitable shoes **in their bags** if using the MUGA or 2G at lunchtime.

Please put names on clothing so that we can return any lost property immediately to the owner.

PE Lessons

The School will continue to provide PE lessons, and pupils will be expected to wear the school PE kit and appropriate tracksuit and trainers on days when they have PE lessons. Changing facilities will not be available on site for some time yet.

With the opening of the new MUGA, 2G and 3G, some of the PE lessons on these new 'pitches' are planned. There are specific requirements for footwear to wear on the 3G pitch, but **AS PARENTS AND CARERS DO NOT BUY ANY NEW SHOES FOR YOUR CHILDREN IF THERE IS NO SUPPORT - A SUPPLY OF 3 TYPES OF SHOES FOR THE 3G WILL BE AVAILABLE THE SCHOOL.**

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Lunch
From Tuesday 13 April, lunchtime for Year 7, 8 and 9 will be from **1:30 pm until 2:20 pm**, with senior pupils from the School adhering to **12:40 pm until 1:30 pm**.
All children except those receiving Free School Meals will need to bring a packed lunch to the School on a daily basis for the next few weeks. It is hoped to pilot the food ordering App over this next period, before allowing all children to use it in May.
Every child who receives a Free Lunch will be provided with a packed lunch, as we did before Christmas.

End of the School day
We will adhere to the same times for leaving School at the end of the day:
2:50 pm - Year 7
2:55 pm - Year 8
3:00 pm - Year 9
3:05 pm - Year 10
3:10 pm - Years 11-13

Lesson Locations
The pupils of every School Year stay in their bubbles during break and lunch time with the location of the School's younger pupils lessons remaining in the same areas of the School as before.

Lateral Flow Tests (LFT) for Pupils
An increasing number of you have given permission for your children in Years 10 - 13 to receive boxes of LFT tests. If you want your children to take these tests (to be used twice a week at home), you must respond to the letter sent out earlier in March – https://bit.ly/2Q9AEU4

Summer 2021 External Examinations
Formal GCSE, A and AS level examinations for the Summer of 2021 have been cancelled for the children of Wales, but the School is required to gather evidence of each child's achievement in each subject, which will contribute to the grades assigned to your child. Your children's teachers will inform them of the tasks to be undertaken to build on existing evidence across the range of subjects, and this work has been ongoing since these children returned to School in March. The School will not be be producing or implementing a centralised examination timetable, and any necessary assessments will take place within lessons.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Here are some important dates for the Year 11, 12 and 13 pupils of Ysgol Gyfun Gwyr over the next three months:
11/6/2021 Years 11/13 finish their lessons in School
18/6/2021 School presents grades to Yr.11 / 12 / 13 pupils
18-25/6/2021 GCSE / AS / A Level grades appeal window

Here are the 'Key Facts' for Summer 2021 published by Qualifications Wales on Thursday:



The purpose of these evidence gathering processes is to ensure that each child is awarded the grade that rightly reflects his/her progress and attainment in each subject. The grades set by the School will be moderated and ratified by the WJEC and then awarded to pupils. A-level / AS

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Results Day will be on Tuesday 10 August, and GCSE Results Day will be on Thursday 12 August.

A Minute's Silence
It is planned to hold a Minute of Silence on the School site at 9:30 am on Tuesday 13 April to remember those who have died or otherwise affected as a result of Covid-19. This has been postponed from 23 March until the whole school population is back on site.

In anticipation of your willing co-operation.at the beginning of a new term.

Yours faithfully

Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk